

CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDDOGED A MAENAN A GYNHALIWDYD DROS 'ZOOM', NOS LUN 29ain o MAWRTH , 2021

PRESENNOL

Cyng. Eifion Williams (Cadeirydd), Cyng. John Owen, Cyng. Nerys Dobson, Cyng. Anwen Jones, Cyng Austin Roberts, Delyth Algieri (clerc).

Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r cyngor cymuned i'r cyfarfod dros 'Zoom'.

YMDDIHEURIADAU

Cyng. Hefin Martin, Cyng. Dylan Jones, Cyng. Arwel Ll. Jones, Cyng. Alun Morris

CADARNHAU'R COFNODION

Cadarnhawyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd ar y 22ain o Chwefror, 2021.

CYNLLUNIO

Cais cynllunio cyfeirnod 0/48266 - Mr & Mrs Williams, Golygfa'r Dyffryn, Ffordd Bryn Saith, Llanddaged - Cais estyniad ac addasiad.

Cyn trafod y cais cynllunio uchod dangosodd y Cadeirydd fod ganddo ddatganiad personol ar gyfer y cais cynllunio yma.

Trafodwyd aelodau eraill y cyngor y cais cynllunio uchod a phenderfynwyd aelodau'r Cyngor drwy godi eu dwylo fod dim gwrthwynebiad i'r cais.

Cais cynllunio cyfeirnod 0/48210 - Cais newid defnydd am ddatblygiad ar raddfa fach o 5 Pod Glampio ychwanegol ar Park Farm i amrywiol math o gabanau llety gwyliau sy'n cael eu cynnig ar hyn o bryd - Mr & Mrs Dylan Jones, Park Farm, Maenan LL26 0UG.

Trafodwyd aelodau'r cyngor y cais cynllunio uchod a phasiwyd fod dim gwrthwynebiad i'r cais ond awgrymwyd fod angen rhoi sylwadau i mewn i gael cyfyngiad ar y sŵn yn dod o'r ardal y Podiau ar ôl 11 o'r gloch y nos.

Nododd aelodau'r Cyngor bydd angen edrych ar y math yma o geisiadau cynllunio i'r dyfodol a gofyn am cyfyngiadau yma cael eu gosod.

PONT DOLGARROG MAENAN

Cafwyd diweddariad gan Cyng Austin Roberts ar y sefyllfa cau pont Dolgarrog yn dilyn cyfarfod rhithiol a gynhaliwyd yn ddiweddar gyda Swyddogion y Sir, Bwrdd Dwr Cymru, Network Rail ac aelod seneddol Janet Finch-Sauders.

Cafwyd wybodaeth bod angen oddeutu £1,350,000 ar atgyweirio'r pibellau dwr sydd ar y bont ac yna rhyw £400,000 i wneud y bont yn ddiogel i gerddwyr . Roedd y Bwrdd Dwr Cymru yn ddigon barod i ail agor y bont i gerddwyr unwaith bod y gwaith wedi'w gwblhau ac os oedd modd i rhywun arall gyfrannu'r £400,000.

Cadarnhaodd y Cyng Gregg Robbins aelod o'r Cabinet y cyngor y buasai modd i'r cyngor wneud cais am gyfraniad gan Llywodraeth Cymru. Nododd Cyng Austin Roberts ei fod yn gweld fod pethau yn edrych yn fwy addawol nag yr oedd hi ychydig fisoedd yn ol .

Diolchodd y Cadeirydd Cyng Eifion Williams i Gyng Austin Roberts am y diweddariad.

LLINELLAU MELYN

Cyng. Austin Roberts am holi Cyngor Sir pryd y bydd y llinellau melyn gyferbyn ar ysgol gynradd Llanddaged yn cael ei cwblhau

ARWYDD DIM PARCIO DROS NOS AR GYFER Y MAES PARCIO CEGIN WEN

Cadarnhaodd y clerc ei bod wedi cysylltu gyda chyngor Sir Conwy yn holi sut y gall y Cyngor Cymuned gael arwydd i roi 'Dim Parcio dros nos' ar gyfer y maes parcio Cegin Wen. Nododd y Sir y bydd rhaid i'r Cyngor Cymuned archebu un drwy gwmni lleol. Penderfynwyd i'r clerc gysylltu gyda chwmnïau lleol i gael prisiau am arwydd ac adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf.

BWRDD PICNIC CAE CHWARAE MAENAN

Cadarnhaodd aelodau'r cyngor i'r clerc archebu bwrdd picnic newydd ar gyfer cae chwarae Maenan gan fod yr un sydd yno wedi pydru.

CYNNAL A CHADW

- 1) Tyllau ar y ffordd Tyrpeg Uchaf tu allan i Ysgol Gynradd, Llanddoged.
- 2) Tyllau yn y ffordd Ffordd Fron Francis wrth ymyl Glasfryn.

CYLLID

Cyfrif Cyfredol - £4,507.29 Cyfrif Cadw - £2,970.15

Arwyddwyd (Cadeirydd) Dyddiad